YSGOL BRYNREFAIL

YR WYTHNOS TRAWSGWRICWLAIDD

TAITH LENYDDOL yr ADRAN GYMRAEG

Bu criw o flwyddyn 9 ar daith lenyddol, ddechreuodd yn Rhosgadfan gyda chip olwg ar sut y bu bywyd yn amser plentyndod y llenores Kate Roberts. Yr oedd athrawesau'r adran Gymraeg yn llawn gwybodaeth am fywyd caled y cyfnod, yn enwedig bywyd tyddyn. Cerdded rhan o'r Lon Wen cyn bwrw ymlaen i Dalsarn ac i dŷ a chofeb y Prifardd R.Williams Parry a rhoi cnawd ar y wybodaeth o gerddi'r Haf astudiwyd yn y dosbarth yn ystod y gaeaf oer. Roedd amser, wrth basio trwy Garmel, i edrych i lawr ar Dinas Dinlle ac ymgydied yn chwedl Lleu ar ein ffordd i Lynllifon.

Unwaith yng Nglynllifon ymgydied yn chwedl Cilmyn Droed Ddu a'i gerflun ar do'r plasty a mwynhau'r datblygiadau diweddaraf trwy gerdded llwybrau'r goedwig gyda'r cerfluniau yn adlewyrchu'r hen chwedlau.

Ac wrth gwrs cael amser i bwyso a mesur a gwrthgyferbynnu bywyd un a'i theulu yn gweithio yn y chwarel a bywyd y llall oedd ei biau.